Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn

## Hydref 2022

### Rhagymadrodd

Swyddogaeth Comisiynydd Pobl Hŷn annibynnol Cymru yw amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd yn craffu'n rheolaidd ar y polisïau a'r arferion hynny, sydd â'r potensial i effeithio ar hawliau pobl hŷn.

Mae'r Comisiynydd yn falch iawn o ymateb i Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i Atal Cam-drin Pobl Hŷn. Mae mynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiynydd. Mae llawer o dystiolaeth i ddangos bod pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, neu sy'n profi cam-drin, wedi cael eu gwasanaethu'n wael o ran ymyrraeth gan ymarferwyr, a darparu gwasanaethau cymorth arbenigol [1]. Mae'r 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol' yn gam pwysig ymlaen i atal cam-drin pobl hŷn a gwella'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n cael eu hunain mewn sefyllfaoedd o gam-drin ac esgeulustod.

Mae'r sylwadau a wneir yn yr ymateb hwn yn dilyn rhifo'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori .

**C1. A gytunwch fod y tri amcan cyffredinol yn briodol? Os na, beth ddylen nhw fod?**

Mewn perthynas â'r amcanion presennol, mae'r Comisiynydd yn teimlo y dylid gwneud diwygiadau yn y meysydd a ganlyn:

Ar hyn o bryd, mae geiriad y trydydd amcan yn awgrymu y bydd camau a gymerir tuag at atal cam-drin yn cael eu cyfeirio'n bennaf at bobl hŷn sy'n derbyn gwasanaethau gofal ffurfiol. Nid yw hyn yn briodol. Mae gan bob person hŷn yr hawl i fyw'n rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac felly mae'n rhaid i'r cynllun ganolbwyntio ar atal cam-drin ac esgeuluso pob person hŷn, ni waeth beth fo'u hangen am ofal a chymorth.

Mae amcanion (1) a (2) yn amlygu'r ffaith bod gwasanaethau i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n profi cam-drin yn cael eu darparu drwy ddau fecanwaith (naill ai drwy wasanaethau diogelu, neu drwy wasanaethau arbenigol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol [VAWDASV]). Weithiau, mae'r ddau faes hyn o ddarpariaeth gwasanaeth yn ymddangos yn bell iawn oddi wrth y llall [2]. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau diogelu a VAWDASV yn gweithio mewn partneriaeth, i ddiwallu anghenion pobl hŷn. Er y cydnabyddir mai dim ond y rhai ag anghenion gofal a chymorth fydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer 'oedolyn sy'n wynebu risg' (ac felly'n gymwys i gael cymorth diogelu), dylai pobl hŷn o'r fath hefyd gael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau VAWDASV ehangach, a allai helpu i atal camdriniaeth a'u hamddiffyn rhag niwed. Dylai'r amcanion hyn felly adlewyrchu'r ffaith bod yn rhaid i wasanaethau diogelu a gwasanaethau VAWDASV weithio ar y cyd, er budd gorau pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.

**C2. A yw'r materion penodol sy'n wynebu pobl hŷn o ran cam-drin ac esgeulustod posibl yn cael eu nodi'n briodol a'u cyflwyno mewn ffordd glir a defnyddiol? Os na, beth arall y dylid ei nodi (a sut )?**

Mae'r Cynllun Gweithredu yn crynhoi nifer o'r prif faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ac sy'n profi cam-drin. Mae'n bwysig bod y materion hyn yn cael eu nodi a'u deall oherwydd mai trwy ddatblygu camau gweithredu penodol, wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r materion hyn, y mae'r risg o gam-drin ac esgeulustod yn cael ei leihau.

Mae'n hysbys bod pobl hŷn yn profi'r un mathau o gam-drin â'r rheini mewn grwpiau oedran iau a bod amgylchiadau rhai pobl hŷn, mewn gwirionedd, yn cynyddu eu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'n hysbys bod clefydau fel dementia (yn fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn) [3], [4] er enghraifft, yn cynyddu'r risg o gamdriniaeth ac esgeulustod [5]. Yn yr un modd, pan fydd pobl hŷn yn ynysig neu'n unig, mae'r risg o gam-drin ac esgeulustod yn cynyddu [6].

Er ei bod yn hysbys bod amgylchiadau llawer o bobl hŷn yn cynyddu'r risgiau hyn, nid oes digon o ddata i bennu mynychder y cam-drin a gyflawnir yn erbyn pobl hŷn [7]. Mae'r diffyg data hwn wedi gwneud profiadau pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, neu sy'n profi cam-drin, yn anweledig ac wedi arwain at gamau gweithredu annigonol i fynd i'r afael â'u hanghenion a'u hamgylchiadau .

Mae'n hysbys i lawer o bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin, bod y broses o gael gafael ar gymorth priodol ac amserol, yn aml yn anodd iawn. Nid yw llawer o bobl hŷn yn gwybod ble i droi am gymorth a chefnogaeth. Mae hefyd yn wir, er yn ddamcaniaethol fod gwasanaethau arbenigol yn agored i rai o unrhyw oedran, mai anaml y bydd pobl hŷn yn cael mynediad atynt [8]. Mae rhai gwasanaethau yn anfwriadol yn darbwyllo pobl hŷn i beidio â chysylltu, oherwydd eu bod yn 'hysbysebu eu hunain' mewn ffordd sy'n awgrymu eu bod wedi'u hanelu'n bennaf at gefnogi pobl iau [9]. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlygu'r ffaith nad yw pobl hŷn yn

grŵp homogenaidd ac i rai pobl hŷn (er enghraifft, i'r rhai o gymunedau LHDTC+ neu Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig), mae'r anawsterau hyn yn dwysáu. Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn dangos bod dynion hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn wynebu heriau penodol wrth gael mynediad at y cymorth sydd ei angen i ffoi rhag eu perthnasoedd camdriniol [10]. Wrth gydnabod mai menywod sy'n dioddef trais domestig yn bennaf, mae'r potensial i ddynion brofi cam-drin ac esgeulustod yn cynyddu gydag oedran [11]. Argymhellir bod y Cynllun Gweithredu yn tynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn ac yn cynhyrchu camau gweithredu i ymateb i'r heriau a amlygwyd.

Mae cam-drin pobl hŷn yn cael ei lywio gan gyd-destun cymdeithasol a diwylliannol. Mae'n gadarnhaol bod y Cynllun Gweithredu yn cyfeirio at faterion sy'n ymwneud â rhagfarn ar sail oedran mewn cymdeithas. Mae'n hysbys bod agweddau a rhagdybiaethau oedraniaethol yn creu hinsawdd sy'n helpu i gyfreithloni gofal lefel isel ac yn caniatáu i gamdriniaeth ac esgeulustod barhau . Bydd creu camau gweithredu i fynd i'r afael â chyffredinolrwydd rhagfarn ar sail oedran mewn cymdeithas yn hollbwysig i atal cam-drin pobl hŷn .

Mae'n bwysig bod y Cynllun yn ystyried yn benodol effeithiau posibl yr argyfwng 'costau byw presennol' ar gam-drin pobl hŷn. Pan fo teuluoedd yn cael trafferthion ariannol, mae'r risg o gam-drin ariannol ac economaidd yn cynyddu. Mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn wynebu caledi ariannol sylweddol ar hyn o bryd. Rhaid cydnabod bod potensial sylweddol i hunan-esgeulustod gynyddu, mewn sefyllfaoedd o ddirywiad economaidd [12]. Mae niferoedd cynyddol o bobl hŷn yn methu â fforddio bwyta deiet iach a maethlon oherwydd eu caledi ariannol. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar eu lles corfforol. Mae eraill wedi peryglu "diogelwch yr amgylchedd byw" [13] oherwydd pryderon ynghylch costau (goleuadau a gwresogi er enghraifft). Wrth i adnoddau materol pobl hŷn leihau, mae'n annhebygol y byddant yn gallu fforddio cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hobïau blaenorol. Mae risg hysbys rhwng unigrwydd, ynysigrwydd cymdeithasol a phroblemau hunan-esgeuluso ymhlith pobl hŷn [14].

Mae hefyd yn wir, wrth gwrs, pan fydd gwasanaethau gofal ffurfiol yn wynebu anhawster ariannol, mae llawer llai o siawns y bydd pobl hŷn yn cael cymorth sydd yn gwir ddiwallu eu hanghenion. Mae gofal sy'n rhoi sylw i amgylchiadau pobl hŷn a'u gofalwyr di-dâl ac sy'n mynd i'r afael â nhw angen amser, ac yn cymryd amser [15]. Rhaid i ymarferwyr rheng flaen ar draws disgyblaethau ddatblygu perthnasoedd â phobl hŷn, er mwyn deall yn llawn eu hanghenion unigol, a chymhlethdodau posibl eu sefyllfaoedd [16]. Mae'r perthnasoedd hyn yn gweithredu fel mecanwaith amddiffynnol pwysig mewn sefyllfaoedd o gam-drin, oherwydd mae pobl hŷn a'u gofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o ddatgelu camdriniaeth ac esgeulustod o fewn cyd-destun perthnasoedd diogel ac ymddiriedus. Mae'r datgeliad cynnar hwn yn caniatáu, yn ei dro, ar gyfer ymyrraeth amserol ac yn helpu i atal cam-drin rhag gwaethygu. Mae'n anochel y bydd ansawdd y berthynas ag ymarferwyr yn cael ei effeithio mewn cyd-destunau o gyfyngiad amser. [17]

Mae pwysau amser, wrth gwrs, yn cynyddu oherwydd y problemau recriwtio a chadw presennol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae’r Cynllun yn cyfeirio at y camau sydd i’w cymryd i fynd i’r afael â’r materion hyn (ariannu “gwaith recriwtio cenedlaethol ac wedi’i dargedu”, a gwaith a wneir gan Awdurdodau Lleol i gynyddu cryfder y gweithlu). Mae'n hanfodol bod effeithiolrwydd y mentrau hyn yn cael eu monitro'n gyson, er mwyn pennu cynnydd neu fel arall yng nghynhwysedd y gweithlu. Heb fynd i’r afael â materion recriwtio a chadw, mae’n anochel y bydd gallu ymarferwyr rheng flaen i weithio mewn ffyrdd sy’n atal cam-drin pobl hŷn yn rhagweithiol yn cael ei beryglu.

Mae’n hysbys hefyd bod pwysau ar amser wedi arwain at ryddhau rhai pobl hŷn o’r ysbyty, i gartrefi gofal nad ydynt o’u dewis, ac ar bellteroedd daearyddol sylweddol oddi wrth eu teulu a’u ffrindiau agos. Mae'r pwysau ariannol ac economaidd presennol hefyd yn golygu bod potensial gwirioneddol y bydd mwy o gartrefi gofal yn cau. Mewn sefyllfaoedd o’r fath, bydd llawer o bobl hŷn yn wynebu sefyllfa lle mae’n rhaid iddynt adleoli i gartref gofal arall, a allai fod wedi’i leoli gryn bellter daearyddol oddi wrth eu gofalwyr di-dâl. Mae gofalwyr di-dâl yn cyflawni rolau hanfodol mewn lleoliadau gofal hirdymor, gan fonitro ansawdd y gofal a ddarperir i berson hŷn, er enghraifft [18]. Mae gwybodaeth ‘arbenigol’ llawer o ofalwyr di-dâl yn golygu y gallant dynnu sylw gweithwyr cartref gofal at fater sy’n ymwneud â lles corfforol person hŷn, cyn y gellid sylwi arno fel arall [19]. Mae llawer o ofalwyr di-dâl hefyd yn cyfrannu at ofal personol pobl hŷn â dementia mewn cartrefi gofal, sy'n hanfodol i'w lles emosiynol [20]. Cyflawnir hyn pan fydd gofalwyr di-dâl yn rhoi gwybodaeth unigol i staff cartrefi gofal am bersonoliaeth a hoffterau pobl hŷn.

Wrth i bobl hŷn symud i gartrefi gofal ymhellach i ffwrdd, efallai y bydd rhai gofalwyr di-dâl yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa lle na allant ymweld mor aml. Mewn sefyllfaoedd o’r fath, mae potensial sylweddol ar gyfer gostyngiad yn ansawdd y gofal a ddarperir i bobl hŷn (bydd llai o fonitro’r gofal a ddarperir, er enghraifft, a llai o gyfle i ofalwyr di-dâl ddarparu’r mathau o wybodaeth sy’n hyrwyddo gofal personol wedi’i deilwra i’r unigolyn).

**C3. A yw dulliau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso wedi’u nodi mewn ffordd glir a defnyddiol?**

Mae gan y Comisiynydd bryderon ynghylch y ffyrdd y caiff camau gweithredu eu nodi yn y Cynllun Gweithredu. Ar hyn o bryd nid yw'r camau a fwriedir i atal cam-drin pobl hŷn bob amser i'w gweld ar unwaith. Rhaid i'r Cynllun gynnwys datganiadau clir o gamau gweithredu arfaethedig. Mewn rhai meysydd o’r cynllun, mae’n ymddangos bod y ffocws ar gamau gweithredu yn y gorffennol (hynny yw, y camau hynny a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn, i helpu i fynd i’r afael â mater cam-drin pobl hŷn). Er ei bod yn bwysig bod y camau hyn yn cael eu cydnabod a’u deall, mae’n rhaid, fodd bynnag, eu symud ymlaen hefyd er mwyn gwella amgylchiadau pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ac sy’n profi cam-drin. Crybwyllir, er

enghraifft, yr ymchwil a wnaed gan yr Uned Atal Trais (a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru). Wrth gydnabod y cyfyngiadau sy'n ymwneud ag ymyriadau 'profedig' effeithiol i atal cam-drin pobl hŷn, nid yw'r Cynllun yn rhoi manylion unrhyw waith pellach i'w wneud yn y maes hwn. Rhaid inni ddeall 'beth sy'n gweithio' i atal cam-drin pobl hŷn, os ydym am ddatblygu ymyriadau effeithiol a sicrhau arfer da yn y maes hwn. Mae'r Comisiynydd yn galw am ragor o ymchwil i nodi ymyriadau cynnar a strategaethau ataliol, i atal cam-drin pobl hŷn .

Mae bwriad clir i weithredu mewn perthynas â meysydd eraill o'r cynllun. Fodd bynnag, weithiau mae diffyg penodoldeb yn y camau hyn o ran eu cynnwys (nodi ffurf y camau gweithredu) ac o ran egluro sut y bydd y camau hyn yn helpu i atal a lleihau cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn. Er enghraifft, cyfeirir at weithrediad y "Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid" (LPS). Yn ddiamau, mae LPS yn bwysig o ran cynnal hawliau pobl hŷn nad ydynt yn gallu cydsynio i'w gofal a'u triniaeth. Mae ganddynt y potensial i ddiogelu pobl hŷn, drwy sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir ar eu rhan, er eu lles gorau. Mae'r cynllun yn cyfeirio at "waith" parhaus yn y maes hwn ond nid yw'n rhoi unrhyw fanylion ynglŷn â'r gwaith hwn (y camau penodol a fydd yn cael eu datblygu/gweithredu). Heb ddeall natur y gweithredoedd hyn (yr hyn y maent yn ei gynnwys), mae'n amhosibl pennu eu heffeithiolrwydd posibl.

Cydnabyddir nad Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am lwyddiant y Cynllun Gweithredu ond bydd hefyd yn dibynnu'n rhannol ar ymatebion sefydliadau eraill, a fyddant yn gyfrifol am fwrw ymlaen ag elfennau penodol o'r gwaith. Mae'n bwysig bod y sefydliadau eraill hyn yn cael eu nodi yn y cynllun, ynghyd â'r camau penodol y maent yn gyfrifol amdanynt.

Rhaid cyflwyno amserlenni penodol gyda phob cam gweithredu. Ar hyn o bryd, mae'n amhosibl gwybod pa mor gyflym y bydd rhai o'r camau gweithredu o fewn y Cynllun yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, mae taflen y practis ar 'Hunan-esgeuluso' i gael ei chynhyrchu, ond ni wyddom o fewn pa amserlen benodol. Mae'r un peth yn wir am daflen yr ymarferydd ar 'Rannu Gwybodaeth'. Mae'n hollbwysig gwybod pa mor gyflym y caiff y camau hyn eu rhoi ar waith, os ydym am fesur posibilrwydd eu heffeithiolrwydd i atal cam-drin pobl hŷn.

Rhaid i'r Cynllun fanylu ar sut y bydd camau gweithredu penodol yn cael eu gwerthuso. Bydd hyn yn hanfodol i bennu effeithiolrwydd y camau gweithredu a roddwyd ar waith, ac i nodi meysydd ar gyfer camau gweithredu pellach a rhai heb eu cymryd i atal cam-drin pobl hŷn. Er enghraifft, sut bydd effaith y daflen 'Rhannu Gwybodaeth' yn cael ei gwerthuso? Sut y bydd yn bosibl penderfynu a yw hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar waith ymarferwyr rheng flaen? Sut bydd effaith y daflen ar hunan-esgeulustod yn cael ei fesur?

Yn benodol, mae'r Comisiynydd yn galw am adolygu ac adrodd ar y Cynllun yn rheolaidd. Bydd hyn yn hanfodol i bennu meysydd gweithredu cadarnhaol ac i nodi

‘bylchau’ sydd ar waith. Rhaid i bobl hŷn, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu cam-drin, fod yn rhan o’r broses adolygu ac adrodd hon.

**Wrth helpu i atal cam-drin pobl hŷn, mae’r Comisiynydd yn annog bod camau gweithredu penodol yn cael eu datblygu/cryfhau yn y meysydd canlynol :**

**Casglu Data:** O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae pennu cwmpas a maint problem yn hanfodol i fynd i'r afael â'r broblem honno. Fel yr amlygwyd mewn adrannau blaenorol, prin iawn yw’r data ar hyn o bryd ar ba mor gyffredin yw’r cam-drin y mae pobl hŷn yn ei ddioddef. Cyfeirir at y “Cyfrifiad” fel modd o gasglu data yn ymwneud â cham-drin ac esgeulustod. Fodd bynnag, mae gan y Comisiynydd bryderon ynghylch i ba raddau y bydd hyn yn nodi graddau llawn yr achosion o gam-drin pobl hŷn. Mae’r Cynllun Gweithredu yn cyfeirio at ffigurau a gasglwyd drwy ‘ffurflenni diogelu’ wedi’u dadgyfuno yn ôl oedran. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, nad dim ond pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth (sy’n dod o fewn y diffiniad o ‘oedolyn sy’n wynebu risg’), sy’n cael eu cam-drin. Sut bydd data’n cael ei gasglu am y bobl hynny nad oes ganddyn nhw anghenion gofal a chymorth (ac nad ydyn nhw felly’n defnyddio gwasanaethau diogelu), ond sy’n destun cam-drin ac esgeulustod? Rhaid cyfuno’r ddwy set hon o ffigurau, os ydym am wella’r ddealltwriaeth o fynychder cam-drin pobl hŷn.

Rhaid i ddata hefyd gael ei ddadgyfuno ymhellach i roi darlun mwy cynnil o’r lefelau a’r profiadau o gam-drin ymhlith gwahanol adrannau o’r boblogaeth hŷn – er enghraifft, faint o ddynion a menywod hŷn sy’n cael eu cam-drin? Beth yw eu profiadau penodol? Beth sy'n hysbys am fynychder cam-drin ymhlith aelodau hŷn o'r cymunedau LHDTC+ a lleiafrifoedd ethnig? Beth yw profiadau pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ac sy’n profi cam-drin, sy’n byw yn ardaloedd gwledig Cymru? Nid yw pobl hŷn yn grŵp homogenaidd a bydd deall pa mor unigryw yw eu profiadau yn hanfodol i sicrhau bod aelodau penodol o’r boblogaeth hŷn yn cael eu hamddiffyn, ac i gynnal effeithiolrwydd ymyriadau a chymorth gan ymarferwyr.

**Codi Ymwybyddiaeth:** Mae’r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn ac adeiladu ar ei hymgyrch codi ymwybyddiaeth ddiweddar yn ymwneud â cham-drin pobl hŷn (roedd yr ymgyrch hon yn ymwneud â cham-drin o fewn y teulu ac yn ariannol). Fel y nodir yn y Cynllun, mae cam-drin pobl hŷn yn digwydd mewn lleoliadau domestig (a gall gael ei gyflawni gan deulu a ffrindiau person hŷn). I lawer o bobl hŷn, bydd eu perthynas â gweithwyr gofal yn gadarnhaol. Fodd bynnag, gall cam-drin ddigwydd gan staff gofal cyflogedig a gwyddys ei fod yn digwydd mewn cartrefi gofal neu gall gael ei gyflawni gan weithiwr gofal cyflogedig (fel gweithiwr gofal cartref) yng nghartref person hŷn. Mae'n hanfodol bod camau pellach, ar y cyd yn cael eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gamdriniaeth a brofir gan bobl hŷn ar draws gwahanol leoliadau. Rhaid galluogi pobl hŷn eu hunain i adnabod y sefyllfaoedd hynny lle maent mewn perygl o gael eu cam-drin; rhaid iddynt wybod sut a ble i gael cymorth. Rhaid hefyd fod llawer mwy o ymwybyddiaeth gymdeithasol o gam-drin pobl hŷn. Mae’n bwysig bod eraill yn gallu adnabod y posibilrwydd o gam-drin pobl hŷn ac yn gallu cynorthwyo pobl hŷn i gael cymorth a chefnogaeth. Dylai ymgyrchoedd godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a’r hyn y dylent ei ddisgwyl gan awdurdodau

cyhoeddus pan fydd cam-drin yn digwydd (y mathau o ymatebion/sut y gellir herio'r rhain). Trwy weithio gydag aelodau ei Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin, bydd y Comisiynydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn a byddai'n falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth pellach.

**Eiriolaeth:** Gall fod yn anodd iawn i bobl hŷn a'u gofalwyr di-dâl godi pryderon ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau gofal ffurfiol, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau presennol ar ffynonellau gofal amgen. Mae'r Comisiynydd wedi derbyn sawl galwad i'w gwasanaeth Cyngor a Chymorth, lle mae ymholwyr wedi sôn am yr anawsterau y maent wedi'u profi wrth fynegi pryderon am ddarpariaeth gofal ffurfiol ac yn disgrifio'r hyn y maent yn ei weld fel 'canlyniadau' negyddol gwneud cwynion yn erbyn darparwyr gofal. Mae materion presennol o ran recriwtio a chadw staff mewn gofal cartref yn golygu y gall fod yn anodd iawn i bobl hŷn a'u teuluoedd ddod o hyd i ddarparwyr gofal amgen. Efallai y bydd rhai aelodau o'r teulu yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa o orfod cynyddu eu rolau a'u cyfrifoldebau gofalu. Fel yr amlygwyd yn y cynllun, mae rhai gofalwyr di-dâl yn gweld bod rhoi gofal yn werth chweil ac yn rhoi boddhad iddynt. I eraill, fodd bynnag, gall gofalu fod yn destun pryder a straen – yn enwedig pan fo'r aelodau hyn o'r teulu'n teimlo nad oes ganddynt ddewis o ran y lefelau gofal y maent yn eu darparu i berson hŷn. Gall y teimladau hyn o straen a phryder arwain at sefyllfaoedd lle mae'r risg o gamdriniaeth ac esgeulustod yn cynyddu wedyn.

Gall hefyd fod yn anodd i bobl hŷn a'u gofalwyr di-dâl godi pryderon am ansawdd y gofal mewn cartrefi gofal. Gall pobl hŷn a gofalwyr di-dâl fod yn ofnus i leisio eu pryderon oherwydd eu bod yn ofni 'siglo'r cwch' ac achosi tensiwn yn eu perthynas â darparwyr cartrefi gofal. Dengys ymchwil diweddar fod ansawdd y perthnasoedd hyn yn hollbwysig i ofalwyr di-dâl sy'n ymgymryd â'r mathau o rolau a chyfrifoldebau a amlygwyd mewn adrannau cynharach [21]. I ailadrodd, pan fydd gofalwyr di-dâl yn cael eu hatal rhag cyfrannu at ofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal, mae'r risg o ofal is-safonol yn cynyddu. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r camau y bwriedir eu cymryd i archwilio trefniadau eiriolaeth mewn cartrefi gofal (mae'n gadarnhaol bod bwriadau i sicrhau bod eiriolaeth ar gael i bobl hŷn a'u gofalwyr di-dâl drwy gydol eu cyfnod preswyl). Mae'n bwysig darparu amserlenni penodol ar gyfer y cam hwn. Yn ogystal, dylid ystyried camau gweithredu pellach i gryfhau lleisiau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Er enghraifft, cyfeirir at newidiadau yn y ffyrdd y bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cofnodi pryderon diogelu mewn cartrefi gofal. Beth mae'r newid hwn yn ei olygu a sut y bydd yn helpu i atal cam-drin pellach? A allai AGC gofnodi sefyllfaoedd lle mae cwynion am ansawdd gofal a diogelu posibl wedi arwain at ofyn i bobl hŷn adleoli i gartref gofal arall? Gall yr ofn o golli lle mewn cartref gofal (yn enwedig pan fo hyn yn golygu symud allan o gymdogaeth) wneud pobl hŷn a'u gofalwyr di-dâl yn

gyndyn o godi pryderon. Pa gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn?

Mae'r Comisiynydd yn galw am werthusiad o gryfder y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol sydd ar gael i bobl hŷn a'u gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gofal, boed yn eu cartref eu hunain neu mewn cartref gofal, ac ymrwymiad i weithredu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad.

**Trais Rhywiol:** Nid yw'r Cynllun Gweithredu yn trafod nac yn datblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â thrais rhywiol a gyflawnir yn erbyn pobl hŷn. Mae rhagdybiaeth gyffredin bod y risg o drais rhywiol yn lleihau gydag oedran [22]; rhagdybiaeth sy'n aml yn deillio o syniadau oedraniaethol o bobl hŷn fel bodau anrhywiol [23]. Mae aelodau o Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin y Comisiynydd wedi adrodd bod mwy o alwadau i linellau cymorth lle mae pobl hŷn wedi disgrifio sefyllfaoedd o gam-drin rhywiol. Mae cam-drin rhywiol yn achosi canlyniadau dinistriol i bobl hŷn, sy'n effeithio'n ddifrifol ar eu lles corfforol ac emosiynol [24]. Rhaid datblygu camau gweithredu i sicrhau bod pobl hŷn sydd mewn perygl o ddioddef trais rhywiol, neu sy'n profi trais rhywiol, yn cael mynediad at y cymorth hanfodol sydd ei angen, i'w hamddiffyn rhag y niwed sylweddol iawn hwn .

**Darparu Gwasanaeth:** Rhaid dwysáu camau gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Cyfeirir yn y Cynllun at y bwriad i fonitro comisiynu gwasanaethau (i sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn ystyried anghenion pobl hŷn, wrth ddatblygu eu gwasanaethau). Awgrymir bod y cam hwn yn cael ei gryfhau drwy gydweithio ar draws y Llywodraeth (bydd y strategaeth VAWDASV a adnewyddwyd yn ddiweddar hefyd yn edrych ar y mater o gomisiynu gwasanaethau, ac mae'n datblygu is-ffrwd ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin).

Mae'r Comisiynydd yn pryderu bod rhai o'r 'prosesau sgrinio' ar gyfer mynediad at wasanaethau VAWDASV, yn 'gweithio yn erbyn' pobl hŷn. Er enghraifft, mae sawl aelod o Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin y Comisiynydd wedi lleisio pryderon bod y 'Rhestr Wirio Dangosyddion Risg Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Thrais ar Sail Anrhydedd' (DASH RIC) gyfredol yn cynnwys cwestiynau nad ydynt yn berthnasol i bobl hŷn. Yna mae'r bobl hŷn hyn yn 'sgorio'n isel' pan fydd yr asesiad risg wedi'i gwblhau, sy'n golygu bod eu mynediad dilynol at wasanaethau rheoli risg fel 'Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) a 'Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol' (IDVA) yn cael ei wrthod. Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo dull safonol, diwygiedig o asesu nad yw'n rhoi pobl hŷn dan anfantais.

**Addysg a Hyfforddiant i Ymarferwyr:** Fel y nodwyd mewn adrannau cynharach, mae'n rhaid i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, neu sy'n profi cam-drin, gael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau a allai eu hamddiffyn rhag

niwed. Yn y gorffennol, aed i'r afael â sefyllfaoedd llawer o'r bobl hŷn hynny ag anghenion gofal a chymorth drwy wasanaethau diogelu. Ni roddwyd ystyriaeth bob amser i'r ffyrdd y gellid hefyd wella'u sefyllfaoedd trwy fynediad ehangach at wasanaethau VAWDASV arbenigol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, rhaid i ymarferwyr ddatblygu ymwybyddiaeth lawn o'r gwasanaethau diogelu/VAWDASV yn eu hardaloedd lleol. Rhaid i hyfforddiant ymarferwyr hefyd herio'n benodol y duedd i weld cam-drin pobl hŷn fel 'cam-drin yr henoed'. O'i ystyried yn y fath ffyrdd, mae cam-drin pobl hŷn yn aml yn cael ei ddeall fel rhywbeth sy'n deillio o bwysau a straen a deimlir yn y rôl gofalu, ac mae ymatebion proffesiynol wedi'u hanelu at liniaru'r straen hwn (trwy, er enghraifft, ddarparu gwasanaethau gofal dydd a gofal seibiant). Mae'n hollbwysig cydnabod y gall gweld cam-drin pobl hŷn fel "cam-drin yr henoed" (gan gymryd bod cam-drin ac esgeulustod yn codi oherwydd y straen a ganfyddir o roi gofal) arwain at ddad-droseddoli cam-drin pobl hŷn.

**Camau i Fynnu Atebolrwydd Troseddwyr**: Mae pryderon mai anaml y caiff y rhai sy'n cam-drin pobl hŷn eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd ac nad yw pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n cael eu cam-drin yn cael mynediad cyfartal at gyfiawnder troseddol ar hyn o bryd [25]. Mae'r Comisiynydd yn annog bod camau gweithredu penodol yn cael eu datblygu o fewn y Cynllun, i sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni gweithredoedd o gam-drin yn erbyn pobl hŷn yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd.

**Ymchwil:** Mae'r Comisiynydd yn galw am fwy o fuddsoddiad mewn gweithgarwch ymchwil, i atal cam-drin pobl hŷn. Er enghraifft, awgrymir y dylid cynnal ymchwil i ragfarn ar sail oedran a chamdriniaeth (ar hyn o bryd ychydig iawn o ymchwil sydd yn y maes hwn). Mae angen ymchwil pellach hefyd i ddeall yn well anghenion penodol gwahanol grwpiau o fewn y boblogaeth hŷn, yn ymwneud â cham-drin ac esgeulustod. Er enghraifft, mae angen mwy o waith i ddeall profiadau pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig a grwpiau LHDTC+, sy'n profi cam-drin. Mae angen ymchwil ychwanegol hefyd ynghylch cam-drin dynion hŷn er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r profiadau penodol a'r heriau a wynebir gan y grŵp hwn. Fel y nodwyd mewn adrannau cynharach, mae ymchwil i nodi strategaethau ymyrraeth gynnar effeithiol i atal cam-drin pobl hŷn yn hanfodol i gryfhau amddiffyniad a lleihau'r risg o niwed.

Mae gwrando ar bobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin a dysgu ganddynt yn hanfodol i wella polisi ac arfer yn y maes hwn. Mae ymchwil sy'n cynnwys goroeswyr yn un ffordd bwysig o sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, a bod eu profiadau'n cael eu deall, wrth ddatblygu gwasanaethau a chymorth effeithiol. Mae'r Comisiynydd yn ymgysylltu â phobl hŷn sydd wedi profi cam-drin ac esgeulustod, a bydd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i dynnu sylw at y problemau a'r hyn a ddysgwyd o'r ymgysylltu hwn.

**Gwasanaethau:** Mae'r Comisiynydd yn galw am weithredu brys i gynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau i atal cam-drin pobl hŷn ac i gefnogi'r rhai sy'n profi pob math o gamdriniaeth. Cydnabyddir y bydd rhai o'r gwasanaethau hyn yn rhan o wasanaethau diogelu generig/VAWDASV. Efallai y bydd angen datblygu gwasanaethau eraill i ddarparu ar gyfer anghenion penodol a nodedig pobl hŷn. Drwy ei gwaith, mae'r Comisiynydd wedi nodi, er enghraifft, ddiffyg sylweddol o ran llety diogel i bobl hŷn sy'n dymuno ffoi o'u perthnasoedd camdriniol [26], [27]. Mae diffyg darpariaeth gwasanaeth yn y maes hwn yn golygu bod pobl hŷn yn aros mewn sefyllfaoedd lle maent yn cael eu cam-drin, ac yn cynyddu eu risg o niwed sylweddol. Mae angen buddsoddiad ariannol brys i sicrhau digon o lety diogel i amddiffyn pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei swydd i dynnu sylw Llywodraeth y DU at fater cam-drin pobl hŷn. O ystyried y cyd-destun presennol (yr argyfwng ariannol, toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus a materion recriwtio a chadw staff), mae angen buddsoddiad ariannol brys yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau nad yw lefelau cam-drin pobl hŷn yn cynyddu.

**C5. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol pobl hŷn yn cael gofal a chymorth yn eu dewis iaith. Mae iaith yn ffynhonnell o wahaniaeth a hunaniaeth, felly mae'n elfen hollbwysig o ddull personol o ddarparu gwasanaethau [28] Mae'n rhaid deall bod gallu derbyn cymorth a gwasanaethau yn eich dewis iaith, yn sylfaenol yn fater hawliau dynol. Ar adegau o straen emosiynol, gall pobl hŷn ei chael hi'n llawer haws disgrifio eu sefyllfaoedd a siarad am eu hofnau, eu pryderon a'u hopsiynau ar gyfer cymorth yn eu 'hiaith gyntaf'. Mae'n destun pryder bod nifer yr ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gallu gweithio'n gymwys drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd [29]. Ni ddylai'r bobl hŷn hynny y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt fod dan anfantais wrth dderbyn cymorth ynghylch cam-drin ac esgeulustod. Mae'r Comisiynydd felly'n annog bod y Cynllun yn cynnwys camau gweithredu penodol, i fynd i'r afael â'r cyfyngiad presennol hwn ar ddarpariaeth gwasanaethau.

**Crynodeb**

Mae datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn gam hollbwysig wrth hyrwyddo ac ymrwymo i gamau gweithredu a mentrau a fydd yn helpu i atal cam-drin pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd wedi gwneud nifer o awgrymiadau ar gyfer gweithredu a fydd, yn ei barn hi, yn helpu i gryfhau'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn

o bryd i atal cam-drin pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys, er enghraifft, mwy o arian ymchwil a chasglu data'n well (byddai'r ddau yn helpu i hybu dealltwriaeth o ba mor gyffredin yw cam-drin pobl hŷn); mwy o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i sicrhau gwell cydnabyddiaeth gymdeithasol o gam-drin pobl hŷn; a buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n cael eu cam-drin.

Hyderwn y bydd y sylwadau a wneir yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad o werth wrth helpu i lunio fersiwn derfynol y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol. Mae'r Comisiynydd yn edrych ymlaen at ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, i helpu i ddatblygu'r maes gwaith hollbwysig hwn.

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru. Ar gael yn Gwasanaethau-Cymorth-i-Bobl-Hyn-syn-Profi-Camdriniaeth-yng-Nghymru.pdf

[2] Wydall, S., Clarke, A., Williams, J. and Zerk, R. (2018). Domestic Abuse and Elder Abuse in Wales: A Tale of Two Initiatives. British Journal of Social Work (48), tud. 962-891.

[3] Brown-Wilson, C. (2017). Caring for People with Dementia: A Shared Approach. London: Sage.

[4] Fang, B. and Yan, E. (2018). Abuse of Older Persons with Dementia: A Review of the Literature. Trauma, Violence and Abuse. 19(2), tud. 127-147.

[5] Manthorpe, J. 2015. The abuse, neglect and mistreatment of older people with dementia in care homes and hospitals in England: The potential for secondary data analysis: Innovative Practice. Dementia 14(2), tud. 273-279.

[6] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru. Ar gael yn Gwasanaethau-Cymorth-i-Bobl-Hyn-syn-Profi-Camdriniaeth-yng-Nghymru.pdf

[7] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru. Ar gael yn Gwasanaethau-Cymorth-i-Bobl-Hyn-syn-Profi-Camdriniaeth-yng-Nghymru.pdf

[8] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru. Ar gael yn Gwasanaethau-Cymorth-i-Bobl-Hyn-syn-Profi-Camdriniaeth-yng-Nghymru.pdf

[9] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru. Ar gael yn Gwasanaethau-Cymorth-i-Bobl-Hyn-syn-Profi-Camdriniaeth-yng-Nghymru.pdf

[10] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2022). Gwella'r Gefnogaeth a'r Gwasanaethau i Ddynion Hŷn sy'n Cael eu Cam-drin yn Ddomestig . Ar gael yn: https://comisiynyddph.cymru/adnodd/gwellar-gefnogaeth-ar-gwasanaethau-i-ddynion-hyn-syn-cael-eu-cam-drin-yn-ddomestig/

[11] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2022). Gwella'r Gefnogaeth a'r Gwasanaethau i Ddynion Hŷn sy'n Cael eu Cam-drin yn Ddomestig. Ar gael yn https://comisiynyddph.cymru/adnodd/gwellar-gefnogaeth-ar-gwasanaethau-i-ddynion-hyn-syn-cael-eu-cam-drin-yn-ddomestig/

[12] Day, M.R., Mulcahy, H., Leahy-Warren, P. and Downey, J. 2015. Self neglect: A case study and implications for clinical practice. British Journal of Community Nursing 20(3), tud. 110 – 115.

[13] McSherry, W., Rykkje, L. and Thornton. 2021. Understanding Ageing for Nurses and Therapists. Switzerland: Springer Publications

[14] Day,M.R., Mulcahy, H., Leahy-Warren, P. and Downey, J. (2015) Self-neglect: A Case Study and Implications for Clinical Practice. British Journal of Community Nursing 20(3), tud. 110 – 115.

[15] Yull, C. and Mueller-Hirth, N. (2019). Paperwork, compassion and temporal conflicts in British social work. Time and Society 28(4), tud. 1532-1551.

[16] Trevithick, P. (2014). Humanising managerialism: reclaiming emotional reasoning: intuition, the relationship and knowledge and skills in social work. Journal of Social Work Practice 28(3), tud. 287-311.

[17] Ruch, G., Turney, D. and Ward, A. (2010). Relationship-Based Social Work. London: Jessica Kingsley Publishers.

[18] Bowers, B. (1998). Family Perceptions of Care in a Nursing Home. The Gerontologist 28(3), tud. 361-368.

[19] Rowles, G.D. and High, D.M. (1996). Individuualising care: family roles in nursing home decision-making. Journal of Gerontological Nursing 22(3), tud. 20-25.

[20] Rowles, G.D. and High, D.M. (1996) Individualising Care: Family Roles in Nursing Home Decision-Making. Journal of Gerontological Nursing 22(3), tud. 20-25.

[21] Cooper, A.K. 2022. Informal Carers and Care-Embedded Social Work: Improving Residential and Nursing Home Admission. PhD Thesis (Prifysgol Caerdydd).

[22] Bows, H. 2018. Sexual violence against older people: A review of the empirical literature. Trauma, Violence and Abuse 19(5), tud. 567-583.

[23] Bows, H. (2019). The other side of late-life intimacy? Sexual violence in later life. Australisian Journal on Ageing tud. 65-70.

[24] Bows, H. and Westmarland, N. (2017). Rape of older people in the United Kingdom: Challenging the ‘real-rape’ stereotype. British Journal of Criminology (57), tud. 1017.

[25] Wydall, S., Clarke, A., Williams, J. and Zerk, R. (2018). Domestic Abuse and Elder Abuse in Wales: A Tale of Two Initiatives. British Journal of Social Work (48), tud. 962-891.

[26] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020). Llety a chefnogaeth i bobl hŷn sy’n cael eu cam-drin. Ar gael yn: Llety a chefnogaeth i Bobl Hŷn sy'n cael eu camdrin - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[27] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2022). Gwella’r Gefnogaeth a’r Gwasanaethau i Ddynion Hŷn sy’n Cael eu Cam-drin yn Ddomestig. Ar gael yn: https://comisiynyddph.cymru/adnodd/gwellar-gefnogaeth-ar-gwasanaethau-i-ddynion-hyn-syn-cael-eu-cam-drin-yn-ddomestig/

[28] Madac-Jones, I. and Dubberley, S. 2005. Language and the provision of health and social care in Wales. Diversity in Health and Social Care (2), tud. 127-134.

[29] Madoc-Jones, I. 2004. Linguistic sensitivity, indigenous peoples and the mental health system in Wales. International Journal of Mental Health Nursing (13), tud. 216-224

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn hyrwyddwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru .

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i amddiffyn hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar ragfarn ar sail oed a gwahaniaethu ar sail oed, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

**Mae'r Comisiynydd yn gweithio dros Gymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.**

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:


Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru